# PWYLLGOR SAFONAU

**(Remotely Via Teams)**

| | |
|---|---|
| **<u>Aelodau'n bresennol:</u>** | **<u>Dydd Mawrth, 11 Ionawr 2022</u>** |
| **Cadeirydd:** | C.L.Jones |
| **Is-gadeirydd:** | B.Richards |
| **Aelodau Annibynnol**: | L.Fleet a/ac T.Ward |
| **Aelodau NPTCBC:** | **Cynghorydd** S.E.Freeguard a/ac D.Keogh |
| **Aelodau'r Pwyllgor Cymunedol:** | **Cynghorydd** |
| **Swyddogion yn bresennol:** | T.Davies a/ac C.Griffiths |
| **Ymddiheuriadau:** | **Cynghorydd** G.Reynolds |

---

1. **<u>CROESO A GALW'R RHESTR</u>**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

2. **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**

   Nid oedd dim.

3. **<u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

   **PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2021 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

5. **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2020/2021</u>**

Trafododd Aelodau bresenoldeb mewn sesiynau hyfforddi a nodwyd bod presenoldeb mewn sesiynau diweddar wedi bod yn uwch oherwydd bod yr hyfforddiant wedi bod ar-lein.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2021/2022, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **<u>CANIATÁU GODDEFEB O DAN A81(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cais y Cynghorwyr Cymuned Sonia Reynolds a Sarah Thomas am oddefeb ar y telerau a nodir isod, a bod y cais am oddefeb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau sy'n dilyn cyfarfod blynyddol 2022.

“I siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â busnes Canolfan Maerdy yng Nghyngor Cymunedol Gwauncaegurwen ar yr amod:

(a) nad ydynt yn rhoi mantais neu anfantais ariannol uniongyrchol i Aelod neu deulu’r aelod nac yn nac yn cynnig mantais neu anfantais uniongyrchol arall i Aelod neu deulu'r aelod

(b) nad yw'n ymwneud â chais am grant neu ystyriaeth o gontract rhwng Canolfan Maerdy a'r Cyngor Cymunedol

(c) ac na fydd yr oddefeb hon yn berthnasol mewn amgylchiadau lle gallai aelod o’r cyhoedd ddod i’r casgliad rhesymol y byddai rôl ymddiriedolwr yn effeithio’n sylweddol ar allu’r cynghorydd i weithredu ar rinweddau’r achos yn unig ac er budd y cyhoedd."

7. **ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL CYMRU**

Nodwyd mai hwn oedd cam cyntaf y prosiect ar hyn o bryd ac nad oedd amserlenni pendant ynghylch pryd y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith, a'r diwygiadau'n cael eu gwneud, ond y byddai gwaith gan Lywodraeth Cymru yn parhau yn 2022.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch anhysbysrwydd tystion, a nododd yr Aelodau na fyddai unrhyw unigolion yn cael eu henwi yn yr hysbysiadau penderfynu.

Trafodwyd arweiniad i Aelodau Etholedig ar gyfryngau cymdeithasol, a nodwyd bod 2 elfen o hyfforddiant yn cael eu rhoi i Aelodau newydd ar hyn o bryd – materion 'Gweithredol' (hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol cyffredinol) a 'Chôd Ymddygiad'.

**PENDERFYNWYD:** Nodi cam cyntaf Adolygiad Annibynnol y Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru.

8. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd dim.

**CADEIRYDD**